# Gwybodaeth i Aseswyr Anghenion

Rydym yn argymell bod pob myfyriwr sydd ag anghenion cymorth yn cysylltu ag un o'n **Cynghorwyr Hygyrchedd** *(E-bost: hygyrchedd@aber.ac.uk neu Ffôn: 01970 621761)* cyn gynted ag y bo modd cyn iddynt ddechrau fel y gallwn drafod eu hanghenion â nhw a sicrhau bod pecyn o gymorth addas ar gael iddynt ar ddechrau eu hastudiaethau.

## Cymorth a chyfraddau Cynorthwyydd Anfeddygol Mewnol (NMH):

Gweler y ddolen isod ar gyfer ein cyfraddau presennol:

**Cyfraddau NMH Prifysgol Aberystwyth**

Sylwer nad yw Prifysgol Aberystwyth yn codi TAW am y swyddogaethau hyn.

Mae'r holl sesiynau 1:1 gyda Chynorthwyydd Anfeddygol yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd cyfforddus, sy'n addas at anghenion cyfrinachedd, o fewn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr, neu mewn lleoliad agos. Mae'r holl ystafelloedd ar gyfer sesiynau 1:1 yn cynnwys cyfrifiaduron sydd wedi eu cysylltu â'r rhwydwaith gydag ystod o feddalwedd technoleg gynorthwyol.

Ein hail ddewis o gyflenwr i roi cefnogaeth Cynorthwyydd Anfeddygol yw Clear Links.

### Rydym yn darparu Cynorthwywyr Anfeddygol Band 4 yn y rolau cymorth a welir isod:

- Mentora Arbenigol (ASD)
- Mentora Arbenigol (Iechyd Meddwl):
- Cymorth Sgiliau Astudio Arbenigol (SpLD ac ASD):

## Cyfraniadau Cyfrifiaduron Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA):

- NID yw Prifysgol Aberystwyth yn talu'r cyfraniad gan fyfyrwyr am gyfrifiaduron, sef £200. Gall unrhyw fyfyriwr cofrestredig wneud cais i'r Gronfa Caledi Myfyrwyr os gallant ddangos eu bod mewn sefyllfa ariannol galed; ystyrir pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.

## Dysgu ac Addysgu:

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn mynnu y dylai pob darlith gael ei recordio a bod y recordiad ar gael i fyfyrwyr. Mae pob man dysgu yn cynnwys cyfarpar **Panopto ar gyfer recordio darlithoedd.** Mae'r darlithoedd a recordiwyd ar gael i fyfyrwyr drwy system AberDysgu Blackboard.

## Darpariaeth TG a Llyfrgelloedd:

- Mae manylion llawn am y gwasanaethau Hygyrchedd sydd ar gael drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth i'w gweld yma: https://www.aber.ac.uk/cy/is/help/accessibility/

- Mae’r manylion am wasanaethau TG a Llyfrgell i’r holl fyfyrwyr ar gael yma: https://www.aber.ac.uk/cy/is/students/

## Darpariaeth mewn arholiadau:

- Mae'r costau sy'n gysylltiedig â darparu addasiadau mewn arholiadau (sef darllenwyr, ysgrifenwyr ayyb) ac sydd wedi'u barnu'n rhesymol, yn cael eu talu gan y Brifysgol. Os yw'n bosib ac ymarferol, gellir trafod dulliau eraill o asesu â Chynghorwyr Hygyrchedd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.

## Hyd y cyrsiau:

- TAR/Ymarfer Dysgu - 38 wythnos
- Pob gradd arall – 30 wythnos (fel rheol 2 semester 15 wythnos)

## Cyfnod Cynefino Cynnar:

- I'r myfyrwyr sydd ag anghenion ASD ac sydd angen cymorth ychwanegol i gynefino â’r Brifysgol, estynnir gwahoddiad i ddigwyddiad cynefino bach, am ddeuddydd cyn prif ddyddiad cyrraedd y Glasfyfyrwyr.